COFNODION CYFARFOD
FFORWM DERBYN SIR BENFRO
A GYNHALIWYD YN OMD1, NEUADD Y SIR, HWLFFORDD
DDYDD IAU, 13 MEHEFIN 2019 AM 8.30a.m.

PRESENNOL: Mrs D Davies (Cadeirydd)
Y Parch H Cale
Y Cyng J Davies
Mr P Edwards
Mr P Harris
Ven P Mackness
Y Cyng A Tudor
Mrs T Williams
Canon B Witt
Y Cyng G Woodham

HEFYD YN BRESENNOL: Mr H Jones (Ysgrifennydd i'r Fforwm)
Mrs Jude Stamp (Cofnodwr)

CAMAU GWEITHREDU

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:
Kate Evan-Hughes (Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion)

2. Aelodaeth y Fforwm Derbyn

Hysbysodd Mrs T Williams fod aelodaeth y Fforwm bron yn llawn ac eithrio lle cynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr sy'n dal yn wag. Mae Mrs Williams wedi cael ei hysbysu y bydd recriwtio ar gyfer y lle hwn yn digwydd yn Nhymor yr Haf 2019. Byddai'r cynrychiolydd hwnnw yn ei le erbyn cyfarfod Tymor yr Hydref a drefnwyd ar gyfer Tachwedd 2019.

Hysbysodd y Canon B Witt y byddai ef yn ymddeol ar ddiwedd y mis ac y byddai'r Parch J Cecil yn cymryd ei le.

Manteisiodd Mrs Davies ar y cyfle i ddiolch i Canon Witt am ei gefnogaeth a'i ymroddiad i'r grŵp.

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar yr 21ain o Dachwedd 2018 yn gofnod cywir.

4. Materion yn codi

Eitem 6, Diweddariad ar y Trosglwyddiadau i'r Ysgol Uwchradd ym mis Medi 2018.
Rhoddodd Mr H Jones ddiweddariad ar y trosglwyddiadau i'r ysgol uwchradd ym mis Medi 2018. Roedd y materion a godwyd ynghylch clwstwr Ysgol y Preseli wedi cael eu hystyried ac roedd adolygiad o ddarpariaeth addysg yn Ysgol y Preseli ac ysgolion ei chlwstwr wedi cychwyn.

Eitem 8, Materion Cludiant Ysgol
Adroddodd Mrs T Williams fod llythyrau cynnig uwchradd wedi eu diwygio ychydig i negyddu'r broblem.

DD

5. Eitemau Derbyn

CAMAU GWEITHREDU

Cyngor i Benaethiaid - Ysgolion Sir Benfro

- Diwrnodiau Blasu: Adroddodd Mrs Williams ei bod hi'n dod yn gynyddol ymwybodol bod diwrnodiau blasu'n cael eu cynnig i ddarpar rieni cyn i geisiadau gael eu cwblhau. Mae hyn yn achosi problem a hoffai'r Adran Addysg gynghori Penaethiaid i beidio â chynnig diwrnodiau o'r fath os nad oes lle wedi cael ei gynnig yn swyddogol. Esboniodd Mrs Williams fod problem yn codi pan fydd lle'n cael ei wrthod ar ôl i ddiwrnod blasu gael ei roi, a bod hyn yn achosi dryswch i'r rhieni.

  Eglurodd Mrs Davies fod y neges wedi cael ei rhoi i Benaethiaid i beidio â chaniatáu diwrnodiau blasu cyn i dderbyniad gael ei gadarnhau. Maent wedi cael eu hysbysu ei bod yn dderbyniol i rieni alw i mewn a cherdded o gwmpas ond dim mwy na hynny.

  Esboniodd Mr Edwards yr anawsterau pan fydd ysgolion y clwstwr ar y ffin a rhieni eisiau edrych ar y dewisiadau. Mae rhieni'n gofyn am ddiwrnod blasu yn aml iawn. Eglurir iddynt na ellir darparu hyn i unigolion ond bod yr ysgol yn cynnig diwrnod blasu yn unig ar gyfer y disgyblion hynny sydd yn y clwstwr cynradd.

  Holodd y Cynghorydd JT Davies sawl ysgol oedd yn cynnig y diwrnodiau blasu. Eglurodd Mrs Williams, er bod y niferoedd yn eithaf isel, eu bod yn tyfu a bod hyn bellach yn dod yn broblem yn arbennig oherwydd y nifer oedd yn cael eu gwrthod.

  Y teimlad yw bod hyn i'w briodoli'n bennaf i ddewis y rhieni ar hyn o bryd.

  Cafwyd trafodaeth ynghylch disgyblion yn symud, sy'n cael ei weld yn Ysgolion Hwlffordd ac sy'n peri pryder yn arbennig i'r ysgolion cynradd llai.

  PENDERFYNWYD: Ychwanegu cyngor at y Llyfryn Cyngor i Benaethiaid ynglŷn â pheidio â chynnal Diwrnodiau Blasu.

  Pwyllgor / TW

- Arfer Da: Bu Mrs Williams yn trafod y broblem a wynebwyd gan yr adran dderbyniadau yn ddiweddar ar ôl marwolaeth plentyn. Bydd cyfarfod o staff amlasiantaethol yn cael ei gynnal yn dilyn marwolaeth annisgwyl plentyn a gelwir hwn yn gyfarfod PRUDIC. Mae Mrs Williams wedi gofyn i'r adran ddiogelu mewn addysg i hysbysu'r adran dderbyniadau pan fydd hyn yn digwydd.

- Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau am drosglwyddiadau canol tymor: Bu Mr Jones a Mrs Williams yn trafod y problemau y mae hyn yn ei achosi, yn enwedig wrth nesáu at PLASC. Mae'r adran yn ceisio rhoi ceisiadau drwodd i alluogi ysgolion i

DP

gaffael eu cyllid ond mae angen llai o symud mewn gwirionedd o ran prosesu. Hoffai'r tîm derbyniadau symud oddi wrth drosglwyddiadau ar ddechrau tymor yn unig i newid i bob hanner tymor. Ymdrinnid â symud tŷ fel bo angen. Bu'r Penaethiaid yn trafod y problemau y maent yn eu cael gyda rhieni nad oes arnynt eisiau datrys problemau ar lefel ysgol. Roeddent yn cydnabod y byddai yna bob amser achosion pan fyddai angen gwneud symudiad os mai hynny oedd yn iawn i'r disgybl ac efallai bod angen cymryd rhai sefyllfaoedd yn ôl eu teilyngdod.	**CAMAU GWEITHREDU**
• Protocolau a Gytunwyd yn Lleol: Cafwyd trafodaeth ynghylch y cynnydd yn y teuluoedd sy'n symud i mewn i Hwlffordd a lle mae disgyblion yn cael eu gwrthod oherwydd bod mwy na'r nifer llawn wedi eu derbyn. Mae hyn yn arwain at gynnydd yn yr apeliadau. Awgrymwyd y dylai ysgolion dderbyn disgyblion os ydynt yn y dalgylch hyd yn oed os ydynt dros y nifer derbyn er y cydnabyddid y problemau y mae hyn yn ei achosi o ran y cyllid ddim yn dilyn y disgybl yn syth.	
Penderfynwyd: Cytunwyd i weithredu'r protocolau o dderbyn disgybl os oedd yn byw yn y dalgylch ond dim ond drwy ymgynghori â'r Pennaeth.	**TW/HJ / Pwyllgor**
• Ysgolion Eglwysig – derbyniad normal o gwmpas dyddiadau cau a dyddiadau cynnig: Eglurodd Mrs Williams fod rhai ysgolion eglwysig yn dilyn yr un dyddiadau â'r awdurdod lleol ond bod rhai oedd ddim, a gofynnodd a ellid anfon llythyr i'w hatgoffa i ddilyn yr un dyddiadau â'r awdurdod.	**Ven Mackness**
6. Polisi Derbyn ar gyfer Canolfannau Iaith	
Yn Fforwm yr Iaith Gymraeg cytunwyd i ddatblygu polisi canolfannau iaith. Y gobaith oedd y byddai'r polisi drafft yn cynnwys y cyfan ond mae yna rai problemau sydd wedi codi yn Ysgol Caer Elen. Nid yw'r polisi drafft presennol yn rhoi cydbwysedd rhwng anghenion Ysgol Caer Elen o gymharu â chanolfannau eraill yn Ysgol y Preseli ac Ysgol Bro Gwaun. Er mwyn cael rhywbeth yn ei le erbyn mis Medi gofynnodd Mr Jones a Mrs Williams, pan fyddai gwybodaeth yn cael ei hysgrifennu nesaf ar gyfer y llyfryn, a ellid cynnwys pwynt yn dweud y byddai trosglwyddo i ysgol sydd â Chanolfan Iaith Gymraeg yn cymryd polisi'r Ganolfan Iaith Gymraeg i ystyriaeth, a byddai hyn yn cryfhau'r arweiniad.	
Penderfyniad y Pwyllgor: Sylw ychwanegol i'w roi yn y Llyfryn Derbyn yn nodi Polisi Canolfannau Iaith Gymraeg.	**Pwyllgor / TW**

7. Diweddariad ar Drosglwyddiadau Uwchradd ar gyfer Medi 2019

CAMAU GWEITHREDU

Adroddwyd mai ychydig iawn o newidiadau a fu ers y cyfarfod diwethaf. Yr unig ysgol sy'n ymddangos wedi ei gordanysgrifio yw Ysgol Bro Gwaun; roedd hyn yn bennaf oherwydd ceisiadau hwyr.

Esboniodd Mrs Williams lle nad oedd cais wedi cael ei dderbyn, eu bod wedi ysgrifennu at y rhiant/gofalwr ac wedi dyrannu ysgol.

Bu Mr JT Davies yn trafod yr effaith ymhellach ymlaen o gwmpas yr ansicrwydd ynghylch Ysgol Uwchradd VC Hwlffordd a'r angen i'r Awdurdod Lleol fynd i'r afael â hyn.

8. Trefniadau Clercio yn y Dyfodol

Esboniodd Mr Jones fod cyfarfod wedi ei drefnu gyda Gwasanaethau Pwyllgorau i benderfynu a fyddent yn gallu darparu cymorth clercio i'r fforwm.

HJ/TW

Ers i'r Cynorthwyydd Derbyniadau ymddeol mae pwysau gwirioneddol ar y Swyddog Derbyniadau, sef unig aelod y Tîm Derbyniadau.

9. Adroddiad am Apeliadau Derbyn

Adroddodd Mr Jones ers y cyfarfod diwethaf ar y 26ain o Dachwedd 2018 y cafwyd 26 o apeliadau unigol, ac o'r rhain:

- x3 – Cil-maen (cadarnhawyd)
- x1 – Penrhyn VC (cadarnhawyd)
- x1 – Fenton (cadarnhawyd)
- x5 – Ysgol Uwchradd VC Hwlffordd (cadarnhawyd)
- x1 – Ysgol Caer Elen (gwrthodwyd)
- x3 – Ysgol Gymunedol Doc Penfro (gwrthodwyd)
- x1 – Johnston (gwrthodwyd)

Nodwyd ymhellach y byddai tair apêl arall yn cael eu cynnal ar yr 21ain o Fehefin ar gyfer Ysgol Uwchradd Hwlffordd ac ysgol CP Aberdaugleddau.

10. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar y 7fed o Dachwedd 2019, 8.30a.m. – NW0D

Llofnodwyd fel cofnod cywir D. Davies

Cadeirydd y Fforwm Derbyn

Dyddiad 13.06.2019